# Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

**2013 dccc 3**

**RHAN 1**

ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

**PENNOD 1**

SWYDD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

**4 Anghymhwyso**

(1) Ni all person gael ei benodi yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person wedi ei anghymhwyso ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn is-adran (3).

(2) Mae person yn peidio â bod yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person yn cael ei anghymhwyso ar unrhyw un o'r seiliau a bennir yn is-adran (3).

(3) Mae person wedi ei anghymhwyso rhag bod yn Archwilydd Cyffredinol os yw'r person—

(a) yn Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol;

(b) yn dal unrhyw swydd arall y caniateir i berson gael ei benodi iddi, ei argymell ar ei chyfer neu ei enwebu ar ei chyfer, gan neu ar ran y canlynol—

(i) y Goron,

(ii) y Cynulliad Cenedlaethol, neu

(iii) Comisiwn y Cynulliad Cenedlaethol;

(c) yn Aelod o Dŷ'r Cyffredin neu Dŷ'r Arglwyddi;

(d) yn Aelod o Senedd yr Alban;

(e) yn Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon;

(f) yn gyflogai i Swyddfa Archwilio Cymru.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Adran 4 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** A. 4 mewn grym ar 1.4.2014 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 3(1)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Adran 4 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 24 Gorffennaf 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 51(3)-(5) inserted by 2024 asc 4 s. 5(b)